datganiad cenhadaeth foesegol

Byddwn ni, y Banc Cydweithredol, yn parhau i ddatblygu'n busnes gan gymryd i ystyriaeth yr effaith a gaiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd a'r gymdeithas yn ei chrynswth. Mae natur ein gweithgareddau'n golygu bod ein hardrawiad anuniongyrchol, trwy fod yn ddetholus o ran darparu cyllid a threfniadau bancio, yn fwy arwyddocaol i'r ecoleg nag ardrawiad uniongyrchol ein masnachu.

Ymgymerwn, fodd bynnag, i asesu'n holl weithgareddau'n gyson a gweithredu rhaglen o welliant ecolegol trwy ddilyn y pedair egwyddor wyddonol a ganlyn:

:· Ni all Natur wrthsefyll ymgasgliad cynyddol o wastraff yn tarddu o gramen y Ddaear.

:· Ni all Natur wrthsefyll ymgasgliad cynyddol o wastraff y gymdeithas, yn enwedig sylweddau artiffisial hir-barhaol na all mo'u diraddio'n ddefnyddiau diberygl.

:· Rhaid peidio â lleihau'r agwedd gynhyrchiol ar Natur o ran ansawdd (amrywiaeth) na mesur (cyfaint), a rhaid iddi allu dyfu.

:· Rhaid i'r gymdeithas fanteisio ar ynni ac adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, gytbwys ac effeithiol.

Teimlwn fod parchu'r egwyddorion hyn yn gyfystyr â dilyn trywydd rhagoriaeth ecolegol ac y bydd hynny'n sicrhau ffyniant dyfodol y gymdeithas trwy weithgarwch economaidd y gellir ei gynnal.

Bydd y Banc Cydweithredol nid yn unig yn dilyn y llwybr uchod ei hun ond hefyd yn ceisio helpu ac annog pawb o'i Bartneriaid i wneud yr un fath.

Anelwn at wireddu hyn trwy'r canlynol:

gwasanaethau **ariannol**

Annog cwsmeriaid busnes i fabwysiadu agwedd ragflaenorol at ardrawiad amgylcheddol eu gweithgarwch eu hun, a buddsoddi mewn cwmnïau a chyrff sy'n osgoi niweidio'r amgylchedd dro ar ôl tro (fel y dywedir yn ein Polisi Moesegol).

systemau **rheoli**

Asesu'n heffaith amgylcheddol, gan osod targedau clir inni'n hunain, creu cynllun gweithredu, monitro cyrraedd y targedau a chyhoeddi'r canlyniadau.

prynu a chaffael o'r tu allan

Croesawu cyflenwyr sy'n dilyn gweithgareddau tebyg i'n Polisi Moesegol a'n Datganiad Cenhadaeth Ecolegol, a gweithio mewn partneriaeth â nhw i wella'n cyflawniad ar y cyd.

cefnogaeth

Cefnogi prosiectau ecolegol a datblygu partneriaethau â busnesau a chyrff y mae eu hallbwn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cyfrannu at gymdeithas gynaliadwy.

deddfwriaeth

Cadw at ddeddfau, cyfarwyddebau a chanllawiau amgylcheddol, tra'n gwella'n gyson ein cyfraniad ein hun at gymdeithas gynaliadwy.